

Malwod clai modelu

Gallwch gael hwyl gyda'r gweithgaredd clai modelu hwn.

Byddwch angen:

- Clai modelu/toes chwarae
- Addurniadau (dewisol)

Dull:

- Gofynnwch i'ch plentyn ddefnyddio'u dwylo i rollo un darn o glai yn siâp rholyn hir
- O un pen, mae angen iddynt ddechrau rholio'r clai i greu torch
- Ar ben arall y falwen, gall eich plentyn ddefnyddio dotiau bach o glai i wneud llygaid

DYSGU DRWY CHWARAE - Malwod clai modelu

Pam ddim?

- Defnyddiwch un rholyn o glai i wneud malwen gyda phlentyn bach?
- Wrth i'r plentyn dyfu yn hŷn, anogwch nhw i fod yn fwy creadigol?
- Gwnewch does eich hun ar gyfer y gweithgaredd hwn?
- Defnyddiwch bethau mae eich plentyn yn cael hyd iddynt o amgylch y tŷ neu'r ardd i addurno'r falwen?

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd rholio'r clai a gwneud siâp yn helpu sgiliau echddygol eich plentyn
- Bydd defnyddio lliwiau sengl yn helpu eich plentyn i adnabod lliwiau
- Gofynnwch gwestiynau i'ch plentyn am eu malwen. Mae hyn yn eu hannog i ddefnyddio geiriau disgrifio, eu dychymyg a datblygu eu sgiliau dweud stori



RHYBUDD:
Mae angen
goruchwyliaeth
ofalus gyda
darnau bach!

